*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2016 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 80(1)(a) a (b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r disgrifiadau o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid cadw cofrestr ar eu cyfer.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 187(2)(n) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

---

# 2016 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *3 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(1)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(n) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

---

(**1**) 2016 dccc 2.

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "GCC" ("*SCW*") yw Gofal Cymdeithasol Cymru(**1**).

**Pennu gweithwyr gofal cymdeithasol**

**3.**—(1) Mae'r gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir ym mharagraff (2) wedi eu pennu at ddibenion adran 80(1)(b) o'r Ddeddf (y gofrestr).

(2) Y gweithwyr gofal cymdeithasol a ddisgrifir yw'r personau hynny—

(a) sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig(**2**) ynddo neu ohono;

(b) sydd, yn ystod eu cyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth(**3**), yn darparu gofal a chymorth i unrhyw berson yng Nghymru mewn cysylltiad—

(i) â gwasanaeth cartref gofal o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, neu

(ii) â gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf,

a ddarperir gan y darparwr hwnnw;

(c) sy'n ymgymryd ag unrhyw gwrs a gymeradwyir gan GCC o dan adran 114(1)(a) o'r Ddeddf (cymeradwyo cyrsiau etc.) er mwyn cael eu cofrestru yn y rhan gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr.

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y
Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o
Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) Ailenwyd Cyngor Gofal Cymru yn Ofal Cymdeithasol Cymru gan adran 67(3) o'r Ddeddf.

(**2**) I gael ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig", gweler adran 2 o'r Ddeddf.

(**3**) I gael ystyr "darparwr gwasanaeth", gweler adran 3(1)(c) o'r Ddeddf.